**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR** |
| **SUBJECT:** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2020 DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2020** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT: M. MOORE (CADEIRYDD)

Councillors J. Holt (Deputy Chair)
P. Baldwin
J. Collins
M. Cook
M. Cross
N. Daniels
D. Davies
G. A. Davies
M. Day
P. Edwards
L. Elias
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
J. Mason
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Summers
B. Thomas

G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Bevan, G. Collier, T. Sharrem a J. Wilkins | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:-<br><br>**Eitem Rhif 36: Datganiad Polisi Tâl 2020/2021**<br><br>- Michelle Morris – Rheolwr Gyfarwyddwr<br>- Richard Crook – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol<br>- Damien McCann – Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol<br>- Lynn Phillips – Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg (Interim)<br>- Rhian Hayden – Prif Swyddog Adnoddau<br>- Anne-Louise Clark – Prif Swyddog Masnachol<br>- Andrea Jones – Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol<br>- Andrea Prosser – Pennaeth Datblygu Sefydliadol<br>- Bernadette Elias – Pennaeth Polisi a Pherfformiad<br>- Gemma Wasley – Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a | |

| | | |
|---|---|---|
| | Democrataidd<br>- Sean Scannell – Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata a Mynediad Cwsmeriaid<br>- Ceri Edwards-Brown – Swyddog Democrataidd<br>- Deborah Jones – Swyddog Cymorth Democrataidd<br><br>Byddai'r swyddogion yn aros yn y cyfarfod os na chynhelir trafodaeth fanwl. Pe digwyddai hynny, byddai'r swyddogion dilynol yn aros yn y cyfarfod tra caiff yr eitem honno ei hystyried:<br><br>- ***Michelle Morris – Rheolwr Gyfarwyddwr***<br>- ***Andrea Jones – Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol***<br>- ***Rhian Hayden – Prif Swyddog Adnoddau***<br>- ***Ceri Edwards-Brown – Swyddog Democrataidd (clerc cofnodion)***<br><br>*Eitem Rhif 47 – Adolygiad Gwasanaeth*<br><br>Adroddwyd y datganiadau dilynol o fuddiant:<br><br>**Cynghorydd N. Daniels** – cafodd gyngor gan y Swyddog Monitro y gallai aros yn y cyfarfod tra caiff yr eitem hon ei hystyried a chymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau, os oes angen.<br><br>**Cynghorwyr P. Edwards, J. Millard, a H. Trollope** – Aelodau'r Gweithgor<br><br>**Cynghorwyr W. Hodgins a L. Parsons –** Aelodau Bwrdd a benodwyd i Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol y gall yr Aelodau uchod aros yn y cyfarfod tra bod yr eitem o fusnes yn cael ei thrafod. | |
| **No. 4** | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**<br><br>**Pandemig Covid-19**<br><br>Cynhaliodd aelodau a swyddogion funud o fyfyrdod tawel i gofio am y rhai a fu farw oherwydd Covid-19 a'u hanwyliaid a'u teuluoedd yr oedd y feirws ofnadwy hwn wedi effeithio arnynt. | |
| **No. 5** | **LLYFR COFNODION – TACHWEDD 2019 – GORFFENNAF 2020** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd y Llyfr Cofnodion ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2019 – Gorffennaf 2020 i'w ystyried.<br><br>Yn dilyn trafodaeth fer pan gododd Aelodau bryder na chafodd y cofnodion eu hystyried eto gan y Pwyllgorau Craffu unigol cyn eu cyflwyno i'r Cyngor, cadarnhaodd y Swyddog Democrataidd bod y setiau o gofnodion ar yr agenda i gael eu hystyried wedi mynd drwy'r broses Craffu.<br><br>**<u>Cyfarfod Blynyddol y Cyngor – 2 Ebrill 2020 – Eitem Rhif 15 – Recriwtio – Datganiad gan Aelod Rhif 3</u>**<br><br>Hysbysodd Aelod am y cywiriad dilynol i baragraff cyntaf y cofnodion uchod. Dywedodd mai yn ystod 2011 **ac nid** 2012 fel y nodwyd y cafodd addysg ei roi mewn mesurau arbennig dan y weinyddiaeth flaenorol.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar y cywiriad uchod, i gymeradwyo a chadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **<u>CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR</u>**<br><br>**<u>Cyfarfod Blynyddol y Cyngor – 2 Ebrill 2020 – Eitem Rhif 15 – Recriwtio – Datganiad gan Aelod Rhif 3</u>**<br><br>Hysbysodd Aelod am y cywiriad dilynol i baragraff cyntaf y gofnodion uchod. Dywedodd mai yn ystod 2011 **ac nid** 2012 fel y nodwyd y cafodd addysg ei roi mewn mesurau arbennig dan y weinyddiaeth flaenorol.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar y cywiriad uchod, i gymeradwyo a chadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 7** | **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 18** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 19** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd. | |
| **No. 20** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TROSOLWG CORFFORAETHOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 21** | **<u>CYDBWYLLGOR CRAFFU ADDYSG & DYSGU A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 22** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TROSOLWG CORFFORAETHOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 23** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 24** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 25** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 26** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 27** | **<u>CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 28** | **<u>PWYLLGOR ARCHWILIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 29** | **<u>CWESTIYNAU AELODAU</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan Aelodau. | |
| **No. 30** | <u>**CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**</u><br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan aelodau o’r cyhoedd. | |
| **No. 31** | <u>**ARGYFWNG COVID-19 – PONTIO I’R CYFNOD NESAF**</u><br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, esboniodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y cafodd yr adroddiad ei ystyried a’i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol ar 24 Mehefin 2020. Fodd bynnag, mae pethau wedi symud ymlaen ers mis Mehefin ac mae’r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar ymateb strategol y Cyngor i argyfwng Covid-19 ac yn amlinellu’r camau nesaf a’r pontio i’r cyfnod adfer, gan fod yr holl wlad yn awr yn croesawu saib yn y pandemig.<br><br>Nodwyd y cyhoeddwyd argyfwng iechyd cenedlaethol ar 23 Mawrth 2020 a bod y Cyngor wedi gweithredu ei ymateb argyfwng cyn 23 Mawrth 2020 oedd wedi arwain at ddarparu gwasanaethau hanfodol yn unig gyda gwasanaethau heb fod yn hanfodol a busnes arferol y cyngor yn dod i ben.<br><br>Er bod yr argyfwng yn parhau, bu saib yn y pandemig gyda gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion newydd a marwolaethau yn rhanbarth Gwent ac ar draws Cymru. Mae’r Cyngor yn awr ar bwynt ynghyd â Chynghorau ar draws Cymru lle mae’n symud i gyfnod adfer.<br><br>Aeth y Rheolwr Gyfarwyddwr ymlaen drwy dynnu sylw at elfennau allweddol yr ymateb dros yr ychydig fisoedd diwethaf, sef:<br><br>- Bu strwythur cynllunio argyfwng yn weithredol ers canol mis Mawrth drwy ddull gweithredu aml-asiantaeth at y pandemig ac mae hyn yn parhau.<br><br>- Daeth pob gwasanaeth heb fod yn hanfodol i ben gyda ffocws neilltuol ar Wasanaethau Cymdeithasol Oedolion, cefnogi rhai o aelodau mwyaf bregus y gymuned, casglu sbwriel ac ailgylchu a diogelu’r cyhoedd, gyda’r Cyngor yn cymryd cyfrifoldebau gorfodaeth newydd sylweddol dan ddeddfwriaeth Coronafeirws. | |

- Mae cau ysgolion wedi arwain at creu hybiau ysgol i gefnogi gweithwyr allweddol drwy ddarparu gofal plant ar gyfer eu plant ac ar gyfer gweithwyr bregus.

- Mae'r Cyngor wedi parhau i gefnogi teuluoedd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim gyda dros 2,000 o deuluoedd yn cael eu cefnogi drwy'r gwasanaeth hwn.

- Creu timau ymateb aml-asiantaeth bro a fu'n gweithio wrth ochr gwirfoddolwyr i gefnogi'r preswylwyr hynny sydd ar y rhestr gwarchod oherwydd rhesymau iechyd. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor wedi dynodi dros 1,300 o breswylwyr bregus a gafodd gynnig cymorth yn ystod y cyfnod clo.

- Effeithiwyd yn wael ar sectorau busnes ledled Cymru gyda llawer o gwmnïau yn cau lawr ac yn rhoi eu gweithwyr ar ffyrlo. Bu cefnogaeth ddigynsail ar gael i fusnesau lleol, gan eu galluogi i gael mynediad i wasanaethau cymorth ariannol y Llywodraeth, gyda'r nod o warchod yr economi lleol rhag effaith gwaethaf y pandemig. Hyd at 5 Mehefin, roedd y Cyngor wedi cefnogi dros 1,300 busnes ac wedi hwyluso talu 1,212 grant yn gyfanswm o £13.56m. Yn ychwanegol at hyn, cafodd nifer o fusnesau hefyd eu cefnogi drwy'r broses i wneud cais am gyllid drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd (a weinyddir gan Busnes Cymru).

- Mae'r gweithlu wedi addasu'n gyflym i'r trefniadau gweithio newydd ac mae staff yn gweithio o gartref lle bynnag mae hynny'n bosibl.

Cafodd Covid-19 effaith enfawr ar Flaenau Gwent gyda 60 marwolaeth hyd yma oherwydd y feirws. Yn ychwanegol, cafodd y pandemig effaith na welwyd ei debyg ar yr economi gyda llawer o weithwyr yn canfod eu hunain heb gyflogaeth neu ar ffyrlo. Arweiniodd hyn at gynnydd mawr mewn hawliadau budd-daliadau.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y pontio i'r cyfnod nesaf ond er y bu saib yn y pandemig, mae'n glir y byddai'n rhaid i bawb barhau i fyw gyda'r pandemig cyn symud i'r cyfnod adfer ac y byddai angen cefnogi hyn gyda mesurau megis ymbellhau cymdeithasol, profion cymunedol ac olrhain cysylltiadau i alluogi dychwelyd i waith, ysgolion a gweithgareddau eraill.

Roedd swyddogion wedi cymryd amser i ystyried yr ymateb yn cynnwys y gwersi a ddysgwyd ac wedi dynodi nifer o bethau cadarnhaol ac arfer da y byddid yn eu cadw yn y dyfodol.

Bydd y gwaith adfer yn mynd rhagddo mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a G10 ac mae'r cyngor yn rhan o'r Grŵp Cydlynu Adferiad a sefydlwyd i arwain y gwaith adfer yng Ngwent. Mae natur yr argyfwng wedi golygu y byddai'n rhaid i'r ymateb ac adferiad redeg yn gyfochrog a byddai hyn yn rhoi galw pellach ar adnoddau.

Byddai'r Cyngor yn parhau i ymateb i'r argyfwng ond roedd yn awr yn ail-ddechrau rhai gwasanaethau yn unol â llacio'r cyfnod clo h.y. roedd ysgolion wedi ailddechrau ym mis Mehefin ac mae cynllunio yn mynd rhagddo'n dda i ddisgyblion ddychwelyd ym mis Medi. Ni fyddai'n achos o ddarparu gwasanaethau fel yn flaenorol. Cydnabuwyd fod pethau wedi newid yn sylweddol ac na fyddai'n ddim ond dychwelyd i ddarpariaeth gwasanaeth arferol. Byddai'n rhaid i hyn newid i roi ystyriaeth i'r fframwaith cenedlaethol a fyddai am y dyfodol rhagweladwy yn cynnwys ymbellhau cymdeithasol gorfodol ynghyd â chyfarwyddyd clir i weithio gartref, lle'n bosibl; 'ailddechrau' mewn camau ystod eang o wasanaethau cyhoeddus a'r economi; a gwaith rhagweithiol parhaus i atal y feirws rhag lledaenu ymhellach tra hefyd yn cynllunio ar gyfer 'brigau' posibl yn y dyfodol.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cynnwys manylion y camau nesaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gweithredol ar 24 Mehefin 2020.

Bu cydnabyddiaeth bod pethau wedi newid yn sylweddol ond nad oedd yn ddim ond yn fater o ddychwelyd i ddarpariaeth gwasanaeth arferol. Bydd ymbellhau cymdeithasol yn parhau yng Nghymru am y dyfodol rhagweladwy a byddai'r ffordd yr ydym yn gweithio, byw a dysgu yn wahanol iawn yn y dyfodol. Cafodd y gwaith i adfywio'r Blaenoriaethau Corfforaethol ei gwblhau ac mae adroddiad ar wahân ar yr agenda i gael ei ystyried. Roedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent wedi cwrdd yn gynharach yn yr wythnos i ystyried effaith y pandemig ar y gymuned a sut y byddai addasu blaenoriaethau a rhaglen waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi adferiad.

Pwysleisiwyd y byddai swyddogion aelodau Etholedig yn rhan o'r

gwaith oedd yn digwydd ar draws y rhanbarth i gefnogi'r broses adferiad, a byddai'n parhau felly.

Yn olaf, gofynnodd y Rheolwr Gyfarwyddwr am gofnodi gwerthfawrogiad i holl staff a gwirfoddolwyr cymunedol ar draws Blaenau Gwent a weithiodd yn anhygoel o galed dros yr ychydig fisoedd diwethaf i ymateb i'r argyfwng hwn yn y ffordd orau bosibl. Mae eu hymroddiad yn rhagorol a dylem oll fod yn falch iawn o'r cymorth y maent wedi ac yn parhau i'w rhoi i'r gymuned.

Ymunodd y Cynghorwyr P. Baldwin a M. Cross â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.

**Trefniadau Gwaith y Dyfodol –** adleisiodd Arweinydd y Grŵp Llafur sylwadau terfynol y Rheolwr Gyfarwyddwr yng nghyswllt staff a gwirfoddolwyr cymunedol a dywedodd fod pawb wedi gwneud gwaith gwych yn cefnogi'r gymuned drwy gydol y pandemig. Aeth ymlaen drwy gyfeirio at baragraff 7.3 yr adroddiad a dywedodd y gobeithiai yr ymgynghorir ag undebau llafur yn arbennig yng nghyswllt gweithio gartref gan nad yw hyn yn ddelfrydol ar gyfer yr holl staff.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'r undebau llafur drwy gwrs y pandemig ac iddynt fod yn rhan o'r tîm ymateb argyfwng o'r cychwyn cyntaf. Byddai swyddogion yn parhau i weithio gyda'r undebau llafur drwy gydol y cyfnod adfer a byddai hyn yn cynnwys unrhyw drefniadau gwaith newydd yn y dyfodol..

**Dychwelyd i gyfarfodydd ffisegol y Cyngor a'r Pwyllgor –** dywedodd Aelod ei fod yn teimlo'n chwithig iawn pan mae preswylwyr yn dweud y disgwylir i blant ddychwelyd i'r ysgol yn arbennig o'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi, ond na all Aelodau ddychwelyd i swyddfeydd y Cyngor i gynnal busnes. Gofynnodd pryd y gallai ddisgwyl i'r Pwyllgorau Craffu a'r Cyngor gael eu cynnal o fewn adeilad y Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y Cyngor yn parhau i weithredu i ganllawiau Llywodraeth Cymru yng Nghymru sy'n dweud y dylai staff barhau i weithio gartref os gallant wneud hynny. Mae Cymru'n dal i orfod cydymffurfio gyda rheol pellter cymdeithasol 2 fetr sy'n cyflwyno her yn nifer y bobl y gallai fod yn ddiogel mewn ystafell. Caiff y sefyllfa ei hadolygu yn ystod yr hydref yng nghyd-destun y canllawiau bryd hynny. Mae safleoedd

eraill yn cael eu hymchwilio a fyddai'n galluogi grŵp mwy o Aelodau i gwrdd ac edrychir hefyd ar drefniadau wrth gefn pe byddai'r cyfyngiadau yn dal mewn grym i mewn i'r hydref.

Ychwanegodd y Rheolwr Gyfarwyddwr nad oedd y Cyngor yn anarferol yn sut y mae'n gweithredu h.y. mae'n debyg i awdurdodau eraill sydd hefyd yn parhau i weithio gartref lle'n bosibl ac yn defnyddio technoleg i gynnal cyfarfodydd democrataidd. Daeth i ben drwy ailddatgan y caiff y sefyllfa hon yn cynnwys unrhyw drefniadau wrth gefn ei hadolygu yn ystod yr hydref.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn deall rhwystredigaeth yr Aelod ac y caiff hyn ei rannu'n gyffredinol ond roedd yn sylweddoli pan fedrai'r Cyngor ddychwelyd i rywfaint o normalrwydd y byddai hynny ar wedd dull cyfunol yn nhermau cynnal busnes y cyngor yn arbennig yn nhermau'r darlun mwy ar gyfer cyfarfodydd tebyg i G10, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Fargen Ddinesig.

Roedd wedi ymweld â Siambr y Cyngor i weld drosto'i hun beth fyddai effaith ymbellhau cymdeithasol 2 metr ac er y gellid cynnal y Pwyllgor Gweithredol yn y lleoliad hwnnw, roedd yn bendant nes y gellid cynnal Pwyllgor Craffu yn yr un lleoliad, y byddai'r Pwyllgor Gweithredol yn parhau i gwrdd yn yr un ffordd â'r holl Bwyllgorau eraill, Fodd bynnag, os yw pellter cymdeithasol yn gostwng i bellter llai na 2 metr, byddai hynny'n ddefnyddiol ond yn sicr ym mis Medi byddai angen edrych ar beth parhauster yn y ffordd mae'r Cyngor yn symud ymlaen.

Adleisiodd Arweinydd y Cyngor y sylwadau a wnaed gan Arweinydd y Grŵp Llafur am waith y staff a'r sector gwirfoddol a dywedodd fod y ffordd yr ymatebodd staff i'r pandemig yn hollol anhygoel. Roedd swyddogion wedi camu lan i'r marc a bu hyn yn wirioneddol yn ddull gweithredu un Cyngor ac mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i'r Rheolwr Gyfarwyddwr ei ddal a byddai angen iddo barhau yn ystod cyfnod arferol.

Aeth yr Arweinydd ymlaen drwy ddweud er bod pob swyddog wedi camu lan i'r marc, canmolodd yn arbennig y swyddogion yn yr Adran Adnoddau y gofynnwyd iddynt anfon gwybodaeth a data ariannol i Lywodraeth Cymru yn gyflym iawn, weithiau o fewn dyddiau, i sicrhau y derbyniwyd arian gan Lywodraeth Cymru i helpu drwy'r Gronfa Caledi a cholli incwm. Roedd pawb yn fawr eu dyled iddynt. Hefyd gyflymder ac effeithiolrwydd sut y digwyddodd

| | | |
|---|---|---|
| | hyn i gyd dros y 4 mis diwethaf, dylid edrych ar lywodraeth leol gyda pharch newydd ar draws y 22 awdurdod oherwydd heb i lywodraeth leol ymateb i'r her y ffordd a wnaeth, gyda phob dyledus barch i'r holl asiantaethau eraill yn cynnwys Llywodraeth Cymru, ni chredai y byddem wedi cyrraedd ble ydym mor gyflym ac mor effeithiol ag y bu modd i ni wneud.<br>**Darparu Prydau Ysgol am Ddim –** holodd Aelod os byddai'r system o daliadau uniongyrchol ar gyfer teuluoedd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn parhau ym mis Medi, neu os y byddai'n dychwelyd i'r system flaenorol. Os felly, gofynnodd os oedd posibilrwydd y gellid edrych ar hyn fel y gellid dileu'r system ddwy haen bresennol.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y bu cefnogaeth y Cyngor i deuluoedd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn wirioneddol bwysig drwy gydol y cyfnod hwn, fodd bynnag ar hyn o bryd bwriedir i'r taliadau uniongyrchol ddod i ben ddiwedd mis Awst gan fod y Llywodraeth wedi dweud y byddai dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Ar hyn o bryd y bwriad yw y bydd taliadau uniongyrchol yn dod i ben a byddai'r Cyngor yn dychwelyd i ddarparu prydau ysgol am ddim, sy'n ofyniad statudol mewn ysgolion o fis Medi ymlaen.<br><br>Nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr y pwyntiau a wnaed am ddull gweithredu gwahanol ar gyfer hyn yn y dyfodol gan fod yn ymwybodol o gyfrifoldebau statudol y Cyngor, byddai'n trafod y mater gyda swyddogion a'r Aelod Gweithredol.<br><br>Mynegodd Aelod arall ei phryder y bu ysgolion yn cynghori rhieni am hanner cyntaf y tymor mai dim ond ciniawau pecyn ac nid prydau poeth y byddai plant yn eu cael o fis Medi a hefyd na fyddai unrhyw glybiau brecwast ar gael.<br><br>Nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr y pwynt am ddarpariaeth prydau poeth a dywedodd fod y Cyngor ar hyn o bryd yng nghamau cynllunio sut olwg fyddai ar hyn ar gyfer tymor yr hydref ond nad oedd wedi gwneud penderfyniad hyd yma. Mae nifer o opsiynau yn cael eu hystyried ond gwneir penderfyniad cadarn yn yr ychydig wythnosau nesaf.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg (Interim) fod trefniadau grŵp cynllunio yn eu lle ar gyfer y sector cynradd a hefyd y sector uwchradd ac mae'r grwpiau hyn yn gynnwys penaethiaid ysgol a hefyd dîm arlwyo y Cyngor. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu clybiau brecwast ac yn wreiddiol | |

| | | |
|---|---|---|
| | ystyriwyd dull 'gafael a mynd' ar gyfer amser cinio. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni gofynion statudol a chanllawiau bwyd, edrychir ar ddarparu prydau poeth o 1 Medi 2020. Er bod angen cwblhau'r trefniadau manwl ar gyfer y ddarpariaeth hwn, dyma yw bwriad y Cyngor yn y dyfodol.<br><br>**Ailagor Ysgolion –** dywedodd Aelod y byddai nifer sylweddol o staff uwch mewn ysgolion yn gweithio drwy gydol gwyliau haf ysgolion i ryw raddau i baratoi ar gyfer a bod mewn sefyllfa i ail-agor ysgolion ym mis Medi a dywedodd y dylid llongyfarch staff ysgolion am hyn,<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo a chefnogi'r dilynol:<br><br>- y dull gweithredu at symud ymlaen i gam nesaf y pandemig ac adferiad;<br>- diwygio'r Blaenoriaethau Corfforaethol i sicrhau ffocws clir ar yr hyn roedd y Cyngor eisiau ei ddarparu dros y 18 mis nesaf;<br><br>- y cynnig i ddefnyddio ymyriad y pandemig i ddangos sut mae'r sefydliad yn gweithio gyda a thros ein cymunedau, partneriaid, gweithlu ac undebau llafur, gan lywio safbwynt ar y 'normal newydd' i gefnogi cyflenwi'r blaenoriaethau diwygiedig;<br><br>- datblygu trafodaeth ehangach seiliedig ar le gyda phartneriaid ar effaith cymunedol y pandemig a sut y gallai Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Blaenau Gwent ymateb a chefnogi adferiad drwy ei flaenoriaethau torfol a rhaglen waith;<br><br>- datblygu Cynllun Adferiad Economaidd drwy ymgysylltu gyda Bwrdd Menter BG a Fforymau Rhanbarthol – gan ddynodi ac ymateb i'r effaith ar fusnesau lleol er mwyn cefnogi adferiad economaidd; a<br><br>- Blaenau Gwent yn parhau i sicrhau ei fod yn cymryd rhan weithgar mewn fforymau rhanbarthol – tebyg i G10 a Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – i gefnogi adferiad a datblygiad y Fwrdeistref. | |
| **No. 32** | **<u>EFFAITH COVID-19 AR GYLLIDEB REFENIW 2020/2021 A</u>** | |

**DIWEDDARIAD AR GYNIGION PONTIO'R BWLCH**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau i gael ei ystyried.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau bod yr adroddiad yn rhoi arwydd clir o'r effaith y byddai Covid-19 yn ei gael ar y gyllideb refeniw yn nhermau gwariant ac incwm. Mae'r adroddiad yn tybio bod y cyfnod clo wedi dod i ben ddiwedd mis Mehefin ac y byddai peth gweithgaredd arferol yn ailddechrau ym mis Gorffennaf ac y caiff rhagolygon y dyfodol eu diweddaru i roi ystyriaeth i unrhyw ddiwygiadau i'r sefyllfa bresennol.

Drwyddi draw rhagwelir cynnydd net mewn gwariant o £2.4m ynghyd â gostyngiad net mewn incwm o £1.6m a gafodd effaith niweidiol ar y gyllideb gyffredinol o £4m.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o becynnau ariannol i gefnogi llywodraeth leol yn cynnwys £30m Cronfa Galedi, £14m Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, cefnogaeth ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, Digartrefedd a bod £78m yn cael ei ddarparu ar draws Cymru i gyllido colli incwm.

Mae'r adroddiad yn tybio y caiff yr holl gostau ychwanegol a gafwyd oherwydd ymateb y Cyngor i Covid-19 ei gyllido'n llawn ac y byddai hyn yn arwain at ostwng y pwysau cost i £1.465m. Fodd bynnag, yr arwyddion dechreuol gan Lywodraeth Cymru oedd mai dim ond 50% o gostau TGCh fyddai'n cael eu cyllido ac ei bod yn debygol y caiff rhai costau eu barnu'n anghymwys.

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y rhagwelir y byddai colled incwm o £1.7m yn ystod Chwarter 1 gyda cholledion sylweddol yn y gwasanaeth arlwyo (prydau ysgol) a gwastraff. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod y byddai'r £78m i gefnogi incwm a gollir yn cael ei ryddhau mewn dognau, gyda'r ddogn gyntaf yn cynnwys parcio ceir, gwastraff, gwasanaethau diwylliannol a phrydau ysgol. Byddai'r ardaloedd colled eraill yn cael eu hystyried yn ddilynol gan banel Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion yn y broses o gwblhau cyflwyno hawliadau chwarter 1 oedd angen eu derbyn gan Lywodraeth Cymru y trannoeth. Byddai unrhyw gymorth a dderbynnid yn gwella'r sefyllfa a adroddwyd, fodd bynnag oherwydd bod Covid-19 yn dal yn y gymuned, gallai'r effaith ariannol dilynol barhau i effeithio ar y Cyngor mewn chwarteri yn y dyfodol a byddai adroddiadau monitro cyllideb chwarterol yn adlewyrchu hyn yn y dyfodol.

Mae paragraff 5.2 yr adroddiad yn rhoi manylion y gwariant ychwanegol a gafwyd fel canlyniad i'r pandemig ac mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn cymorth treth gyngor, gofal cymdeithasol oedolion, gwasanaethau gwastraff a phrydau ysgol am ddim. Roedd hefyd rhai meysydd trawsbynciol o wariant yn ymwneud â TGCh, offer diogelu personol a chynnyrch diheintio.

Mae paragraff 5.3 yr adroddiad yn rhoi manylion y colli incwm a fyddai'n digwydd fel canlyniad i'r pandemig sy'n cynnwys gostyngiad cyffredinol yng nghasgliad y Dreth Gyngor. Er bod yr adroddiad yn nodi 2.6%, ailedrychwyd ar hyn ac roedd bellach yn 1.1%. Gobeithid y byddai hyn yn incwm wedi ei ohirio yn hytrach na cholled, fodd bynnag, o gofio am y sefyllfa economaidd bresennol, mae risg uchel o beidio casglu ac mae posibilrwydd dileu dyledion yn cynyddu.

Mae'r rhagolwg yn tybio colli incwm o unedau diwydiannol o £68,000 ar gyfer mis Ebrill 2020 yn unig h.y. un mis o gyfnod di-rent i denantiaid. Mae hefyd yn rhagweld colli rhent yn y Swyddfeydd Cyffredinol o £10,000 am y cyfnod Ebrill 2020 i Mehefin 2020. Mae'r rhagolwg yn tybio y caiff y gohiriad rhent 2 fis ei gasglu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ond byddai hyn yn dibynnu ar fusnesau.

Y meysydd arall sy'n rhagweld diffyg incwm oedd prydau ysgol, colli incwm ar gyfer arlwyo a glanhau ysgolion drwy gytundebau lefel gwasanaeth a cholli/oedi incwm o waredu â gwastraff ailgylchu a gwastraff masnach. Mae meysydd eraill yn cynnwys colli incwm o gasglu gwastraff swmpus, cynnal a chadw tiroedd, sbwriel a gorchmynion rheoli cŵn.

Yng nghyswllt cynigion Pontio'r Bwlch, rhagwelir y byddid yn cyflawni £1.217m (83%) ar hyn o bryd a fyddai'n gwrthbwyso rhai o'r pwysau cost a ddynodir ynghyd â rhai derbyniadau incwm ychwanegol ym mharagraff 5.7.1 a gostwng gwariant a fanylir ym mharagraffau 5.7.2 – 5.7.5.

Ar ddiwedd mis Mai, roedd 140 staff ar ffyrlo ac nid oedd dim o'r staff wedi bod ar anfantais ariannol gyda'r holl staff yn parhau i dderbyn 100% o'u cyflog.

Byddid yn adolygu holl gyllidebau'r Cyngor i benderfynu os y gellir ail-flaenoriaethu'r gyllideb i liniaru costau ychwanegol a byddai

colli incwm a ffioedd rheoli hefyd yn cael ei adolygu i sicrhau nad oedd cyllido dwbl o’r pwrs cyhoeddus.

Cafodd Aelodau wedyn gyfle i godi cwestiynau/rhoi sylwadau ar yr adroddiad:

**Cofrestr Risg Corfforaethol/Cyllid –** mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau oherwydd y goblygiadau ariannol a gweithredol posibl, cafodd Covid-19 ei gynnwys ar y Gofrestr Risg Corfforaethol. Yn nhermau cyllid, adnoddau cyfyngedig sydd gan y Cyngor i sefydlu cronfa i helpu gyda Covid-19 ac er bod y Cyngor yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, cydnabyddir mai adnoddau cyfyngedig sydd ganddynt hwythau, felly byddai’n rhaid dynodi adnoddau eraill i gyllido’r costau ychwanegol a geir fel canlyniad i Covid-19. Gallai hyn fod yn ail-flaenoriaethu neu drosglwyddo cyllidebau presennol neu ystyried ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Byddai hyn yn cael ei ystyried rhan o’r broses gosod cyllideb yn y dyfodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/2022 ymlaen.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Lafur o gofio am sylwadau’r Prif Swyddog a’r anawsterau a fyddai’n wynebu’r Cyngor yn y dyfodol, cyfeiriodd at y Cyllidebau Trawsnewid a fanylir ym mharagraffau 5.7.12 a 5.7.13 a’r dybiaeth y cafodd y rhain eu hymrwymo’n llawn. Fodd bynnag, gofynnodd pan fydd y dadansoddiad cost terfynol yn hysbys ac os y byddai brig arall yn ystod yr haf, a fyddai unrhyw bosiblrwydd dad-ymrwymo’r cyllidebau hyn ar gyfer y diben hwn?

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod pob awdurdod lleol yn yr un sefyllfa ac yn nhermau’r sefyllfa cyllideb cynhaliwyd nifer o drafodaethau gyda’r Prif Swyddog Adnoddau am sut i symud ymlaen â hyn a sut i gynllunio ar gyfer y gwaethaf ond gobeithio am y gorau. Dywedodd yr edrychir ar bob cyllideb.

Un pwynt a wnaeth yn gyson gyda’r WLGA ac y bu’r Prif Swyddog Adnoddau yn ei wneud hefyd yng nghyfarfodydd Trysoryddion sydd yn sicrhau cynnydd, oedd pam na roddir digon o bwysau ar y Trysorlys am gyfalafu refeniw oherwydd y byddai hyn o fudd mawr i awdurdodau lleol ar draws Cymru a byddai hyn yn llacio’r arian refeniw y bu Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau gydag ef hyd yma.

**Ffyrlo –** mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog

Adnoddau y bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn ei hawliad i HMRC a fyddai'n gwella'r sefyllfa ariannol. Nodwyd y cafodd 140 o staff eu rhoi ar ffyrlo o nifer o wahanol feysydd gwasanaeth ond roedd nifer sylweddol o'r gwasanaeth arlwyo ysgolion, goruchwylwyr canol dydd a glanhau. Roedd hyn yn ganlyniad uniongyrchol oherwydd nad oedd angen gwasanaeth oherwydd fod ysgolion ar gau, fodd bynnag cafodd rhai staff eu hadleoli. Cafodd y staff hynny oedd yn fwy bregus neu na fedrai weithio gartref eu rhoi ar ffyrlo.

**Costau TGCh –** ar hyn o bryd mae cost darpariaeth TGCh yn £38,000 a chafodd 50% o hyn ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r ffigur hwn yn cynyddu ychydig ond nid yw'r ffigur presennol yn hysbys ar hyn o bryd.

**Gostyngiad Treth Gyngor –** cyfeiriodd Aelod at y gronfa o £9.3m ar gyfer 2020/2021 a holodd os y cafodd y cyllid hwn ei ymrwymo'n llawn ac os y cynhelir trafodaethau i gynyddu'r ddarpariaeth cyllid. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau fod disgwyliad y caiff y gyllideb ei defnyddio'n llawn ac ar hyn o bryd, oherwydd nifer yr hawlwyr, mae disgwyliad y rhagorir ar y gyllideb hon. Mae'n bwysig nodi fod y £9.3m a neilltuwyd yn fwy na'r elfen cyllid gwirioneddol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Grant Cefnogi Refeniw.

Cynhaliwyd trafodaethau yn y Grŵp Trysorlys yn nhermau cefnogaeth ychwanegol ar gyfer y Cynllun Gostwng Treth Gyngor ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn ar hyn o bryd a disgwylir adborth ar eu penderfyniadau.

**TGCh Aelodau –** mynegodd Aelod ei phryder fod y ffigur o £27,000 mor uchel yn arbennig gan fod mwyafrif yr Aelodau eisoes wedi cael gliniaduron. Nodwyd fod y ffigur yn amcangyfrif ar hyn o bryd ac yn cynnwys darparu gliniaduron, ffonau symudol, llogau pyls ar gyfer mynediad o bell a thrwyddedau.

**Colli Incwm –** mewn ateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau y gellid hawlio mwyafrif helaeth yr incwm yn ôl gan Lywodraeth Cymru a byddai'r Cyngor yn symud ymlaen ac yn ceisio cynyddu'r hawliadau colled incwm a diweddarir Aelodau ar lwyddiant yr hawliadau yn y dyfodol. Nodwyd fod colli incwm yng nghyswllt gofal cartref ac unedau diwydiannol yn ffurfio sylfaen yr hawliad colli incwm a gyflwynir i Lywodraeth Cymru y trannoeth.

**Swyddi Gwag –** nid oedd wedi ei gynnwys yn y cyfrifiadau

oherwydd yr elfennau amser ond caiff ei gynnwys yn yr adroddiadau chwarterol a'r rhagolygon yn y dyfodol.

**Bonws Tâl i Gyflogwyr –** mynegodd Aelod ei phryder nad oes sôn yn yr adroddiad yng nghyswllt y bonws tâl £1,000 ar gyfer cyflogwyr am gadw staff ffyrlo a'u cadw yn gyflogedig tan fis Ionawr 2021 a gofynnodd os y dylai hyn gael ei gynnwys yn y gyllideb yn y dyfodol.

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau mai'r rheswm pam na chynhwyswyd hyn oherwydd y gwnaed y cyhoeddiad ar ôl paratoi'r adroddiad ond byddir yn dilyn y mater gan y byddid yn dod â mwyafrif y staff ffyrlo yn ôl i gynorthwyo gydag ailagor ysgolion.

**Cyllidebau Ysgol –** cyfeiriodd Aelod at baragraff 5.7.10 yr adroddiad a dywedodd, fel bod ysgolion eisoes wedi gweld cynnydd mewn gwariant, na ddylid gofyn iddynt ad-dalu arian i'r Awdurdod Addysg Lleol.

Cadarnhawyd nad oedd y Cyngor wedi gwneud penderfyniad ar hyn o bryd p'un ai i newid y cyllid ar gyfer ysgolion. Fodd bynnag, ar gyfer 2021 roedd yn bwysig edrych ar bob cyllideb wrth symud ymlaen oherwydd y pwysau sydd ar y Cyngor, ysgolion a sefydliadau eraill. Dywedwyd hefyd fod ysgolion hefyd wedi arbed costau oherwydd iddynt fod ar gau. Ategodd y swyddog na wnaed unrhyw benderfyniad ar hyn o bryd ond roedd yn bwysig edrych ar ac adolygu pob cyllideb wrth symud ymlaen i benderfynu os gellid eu hailbwrpasu.

Er y gwerthfawrogai y bu ysgolion ar gau, dywedodd yr Aelod fod athrawon yn dal i fod yn addysgu'r plant. Hefyd cafwyd gwariant ar gyfer athrawon llanw i lanw ar gyfer staff na fedrai weithio.

Hysbyswyd Aelodau y cafodd Cynghorau o fewn ardal Gwent Fwyaf eu canfasio am eu barn yng nghyswllt cyllidebau ysgol. Mae ymatebion yn awgrymu, er bod cyllid ysgol ar y radar, na ddaethpwyd i unrhyw gasgliadau neu benderfyniadau cadarn hyd yma.

**Gwerthfawrogiad –** Mynegodd Aelod ei ddiolch i'r Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad manwl. Fodd bynnag dywedodd oherwydd amserlen yr adroddiad, yn anffodus na fyddai gan y Cyngor wybodaeth lawn nes derbyniwyd penderfyniad Llywodraeth Cymru yng nghyswllt hawliad y Cyngor am gyllid a

| | | |
|---|---|---|
| | ddisgwylid y trannoeth. Ategodd ei werthfawrogiad i Rhian a'i thîm am ddarparu'r wybodaeth mor gyflym o gofio am bopeth sy'n digwydd ar hyn o bryd.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn ddiolchgar am sylwadau'r Aelod a chytunodd fod pa mor gyflym y bu'n rhaid i dîm y Prif Swyddog gydymffurfio gyda dyddiadau cau a throi'r wybodaeth o amgylch yn hollol anhygoel.<br><br>Cydnabu bryderon Aelodau am y mater cyllid ond rhoddodd sicrwydd, beth bynnag sy'n digwydd yng nghyswllt ailbwrpasu, ailflaenoriaethu neu ddiwygio'r gyllideb, y byddai hyn yn dod yn ôl am benderfyniad y Cyngor. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion y sefyllfa ariannol ar bwynt mewn amser ac awgrymiadau posibl ond y byddai hyn i gyd yn amodol ar y broses ddemocrataidd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>- cytuno ar y sefyllfa rhagolwg gyfredol; a<br>- nodi'r cynnydd a wnaed ar raglen Pontio'r Bwlch ar gyfer 2020/2021. | |
| **No. 33** | **<u>SEFYDLU GWASANAETH OLRHAIN CYSYLLTIADAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Ystyriodd y Cyngor adroddiad y Prif Swyddog Masnachol.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, rhoddodd y Prif Swyddog Masnachol fanylion yr adroddiad oedd â'r diben o sefydlu Gwasanaeth Olrhain Cysylltiadau Blaenau Gwent.<br><br>Esboniodd y Prif Swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu prif gynllun Profi, Olrhain a Diogelu ar 13 Mai a gefnogwyd gan Gynllun Ymateb Diogelu Iechyd y Cyhoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gynlluniwyd i gefnogi'r symud allan o'r cyfnod clo. Fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i bob rhanbarth ddatblygu ei ymateb rheolaidd rhanbarthol ei hun i'r Cynllun a dechreuodd gwasanaeth Gwent-gyfan ar 1 Mehefin 2020.<br><br>Er mwyn cyflawni hyn, cafodd rhai staff eu hadleoli i'r gwasanaeth i gynnal olrhain cysylltiadau a chynghori ar gysylltiadau. Nid oedd hwn yn drefniant cynaliadwy ar ôl mis Medi a gofynnwyd i | |

awdurdodau sefydlu trefniant parhaus o fis Medi 2020 i fis Mawrth 2021. Ers hynny mae Grŵp Cydlynu Gwent wedi cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru sydd wedi arwain at ddyfarnu £9.6m ar draws Gwent i sefydlu'r gwasanaeth.

Roedd model y gwasanaeth yn seiliedig ar fodel integredig lle mae Awdurdodau Lleol yn cymryd y prif gyfrifoldeb am eu timau lleol perthnasol a byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol am yr ymateb rhanbarthol.

Aeth y Prif Swyddog Masnachol ymlaen drwy roi manylion y model ac esboniodd y caiff staff eu cyflogi'n benodol i roi adnoddau i'r tîm ym Mlaenau Gwent ac y byddent yn gweithio gartref o bell i ddarparu'r gwasanaeth. Yn seiliedig ar y datrysiad interim cynigiwyd creu tîm yn unol â modelau eraill Gwent gyda thîm yn cynnwys Rheolwr Gwasanaeth Tîm, Swyddogion Olrhain Cysylltiadau a Chynghorwyr, Cydlynwyr Shifft yn darparu gwasanaeth 7-diwrnod, 8.00 a.m. i 8.00 p.m.

Roedd nifer y staff sydd ei angen yn seiliedig ar boblogaeth Blaenau Gwent a'r gyfradd positif posibl h.y. byddai 20% o'r profion yn bositif. Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion y trefniadau llywodraethiant a byddai'r tîm yn adrodd yn uniongyrchol i'r Grŵp Cydlynu Strategol fel rhan o ymateb i Covid-19 a Memorandwm Dealltwriaeth sy'n cynnwys y Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol yng Ngwent sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Felly cynigiwyd rhoi awdurdod wedi ei ddirprwyo i'r Prif Swyddog Masnachol i lofnodi'r Memorandwm Dealltwriaeth gan ymgynghori gyda'r Aelod Gweithredol.

PENDERFYNWYD yn unol â hynny.

Daeth y Prif Swyddog Masnachol i ben drwy ddweud y byddai rheoli perfformiad y gwasanaeth newydd yn gydnaws gyda threfniadau rheoli perfformiad arferol y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog Masnachol y byddai swyddogion a gyflogir o fewn y gwasanaeth yn cael cynnig cefnogaeth tebyg i gwnsela. Yn ychwanegol ar ddechrau a diwedd pob shifft byddai sesiwn briffio a di-briffio. Mae gan y Cyngor raglen cymorth gweithwyr cyflogedig ar gyfer y swyddogion hynny sydd â phroblemau llesiant neilltuol ac angen siarad gyda rhywun y tu allan i'r tîm ac y byddai aelodau'r tîm yn

| | | |
|---|---|---|
| | cael blaenoriaeth ar gyfer y gefnogaeth honno os oes angen.<br><br>Mynegodd Arweinydd y Cyngor ei werthfawrogiad i'r Prif Swyddog Masnachol am y gwaith anhygoel a wnaed nid yn unig ym Mlaenau Gwent ond ar draws y rhanbarth i ddarparu'r gwasanaeth. Cynigiodd gymeradwyo Opsiwn 1. Eiliwyd y cynnig.<br><br>Canmolodd Arweinydd y Grŵp Llafur yr adroddiad.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH YN UNFRYDOL, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar y cynigion i sefydlu Tîm Olrhain Cysylltiadau awdurdod lleol, fel rhan o wasanaeth rhanbarthol Gwent. | |
| **No. 34** | **BLAENGYNLLUN – ADNEWYDDU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2020/22**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Fel canlyniad i'r pandemig, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwyr y caiff ei gydnabod fod angen diwygio'r blaenoriaethau corfforaethol hyd at 2022 ac yn bwysicaf mae angen adfyfyrio ac adeiladu ar wersi'r ymateb i'r pandemig a sefydlu'r arfer da a gwaith da i flaenoriaethau a dyheadau y dyfodol. Cafodd y darn hwn o waith ei wneud mewn cysylltiad gyda'r Pwyllgor Gweithredol.<br><br>Ni chafodd unrhyw flaenoriaethau eu tynnu o'r cynllun gwreiddiol ond cafodd y ddogfen ei hailddrafftio a'i haileirio i geisio canolbwyntio ar y deilliannau i'w cyflawni gan y Cyngor ac i sicrhau bod y dull gweithredu un cyngor at ddarpariaeth a ddefnyddiwyd mor llwyddiannus dros yr ychydig fisoedd diwethaf yn parhau.<br><br>Caiff meysydd newydd o weithgaredd eu dynodi yn yr adnewyddu yn cynnwys yr uchelgais i ddod yn Gyngor a Bwrdeistref carbon isel, a gaiff ei gryfhau gan yr angen i edrych sut y byddai'r Cyngor yn gweithio yn y dyfodol gan roi ystyriaeth i fuddion peth o'r gweithio newydd a symud i fodel mwy cynaliadwy yn y dyfodol yn nhermau gweithio ystwyth. Gwneud yn siŵr ein bod fel Cyngor yn symud ymlaen yn parhau i fyw gyda'r pandemig, y darperir gweithle diogel ar gyfer gweithwyr ac amgylchedd diogel ar gyfer defnyddwyr pan maent yn dod i gysylltiad gyda'r Cyngor ac yn derbyn ei wasanaethau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod yn cefnogi'r adroddiad a dywedodd fod y datganiadau deilliant yn dal i fod yn ddigon hyblyg i ychwanegu elfennau dros gyfnod.<br><br>Aeth ymlaen drwy ddweud fod anifeiliaid yn crwydro yn dod yn broblem yn y Fwrdeistref Sirol yn arbennig felly yn wardiau Nantyglo a Blaenau a gofynnodd os gellid edrych ar hyn eto yn y dyfodol. Dywedodd Aelod arall, er ei fod yn effeithio mwy ar rai ardaloedd nag eraill, gofynnodd os y gellid rhoi blaenoriaeth i fater gwasanaeth llocio a mynd ar ôl hyn yn gynnar yn hytrach na'n hwyrach.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor na fyddai ganddo broblem gyda'r cais a dweud fod hyn yn cael ei gynnwys yn ddigonol yn y datganiad deilliant – "diogelu a gwella ein hamgylchedd a seilwaith er budd ein cymunedau". Er na fyddai'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol gan fod hyn yn manylu blaenoriaethau 'strategol', rhoddodd ymrwymiad y byddai'n codi'r mater gyda'r Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd ac awgrymodd y gellid ei gynnwys yng nghylch gorchwyl y portffolio Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Blaengynllun Corfforaethol 2020/22 ar gyfer ei gyhoeddi. | |
| **No. 35** | **<u>STRATEGAETH CYFALAF 2020/2021</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau yn fyr am yr adroddiad a dywedodd fod Cod Darbodus Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), a ddiwygiwyd yn 2017, yn cyflwyno cysyniad Strategaeth Cyfalaf yn weithredol o fis Ebrill 2019.<br><br>Bwriad y strategaeth cyfalaf yw rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau ynghyd â throsolwg o sut y caiff risg cysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Mae datblygu strategaeth cyfalaf yn caniatáu hyblygrwydd i ymgysylltu gyda'r Cyngor llawn i sicrhau fod pob Aelod etholedig yn deall y strategaeth gyffredinol, | |

| | | |
|---|---|---|
| | y gweithdrefnau llywodraethiant a’r archwaeth am risg.<br><br>Nodwyd y cafodd y Strategaeth Cyfalaf ei hystyried gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Corfforaethol yn ystod mis Chwefror ac mai’r bwriad oedd i’r Cyngor ei ystyried ym mis Mawrth. Fodd bynnag, ers hynny edrychwyd eto ar y strategaeth i ganfod os oedd angen gwneud unrhyw ddiwygiadau ac roedd swyddogion yn fodlon nad oedd angen unrhyw newidiadau sylweddol i’r ddogfen fel canlyniad i Covid-19 ac na fu unrhyw newidiadau sylweddol ers y cafodd y strategaeth olaf ei mabwysiadu yn 2019.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar Strategaeth Cyfalaf 2020/2021. | |
| **No. 36** | **<u>RHEOLI TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH BUDDSODDI & DATGANIAD POLISI MRP 2020/2021 (YN CYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS)</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau ar gyfer ei ystyried.<br><br>Mae’r adroddiad er mwyn rhoi cyfle i Aelodau ystyried y Strategaeth Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (yn cynnwys dangosyddion darbodus) ar gyfer ei fabwysiadu ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021.<br><br>Nodwyd fod gohirio cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor oherwydd y cyfnod clo coronafeirws wedi golygu fod oedi cyn i’r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn ac fel canlyniad bu rhai mân newidiadau eraill i’r strategaeth i adlewyrchu data economaidd diweddar. Fodd bynnag, nid yw’r strategaethau wedi newid yn sylweddol ers iddo gael ei graffu gan Trosolwg Corfforaethol ar 3 Mawrth 2020.<br><br>Ar wahân i un mân newid a amlinellir uchod, ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i’r strategaeth o gymharu â’r ddogfen a gytunwyd yn 2019/20.<br><br>Mewn ateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai’r rhagolwg cyllideb ar gyfer Isafwm Darpariaeth Refeniw o 2022/2023 yn codi’n ddilynol a chaiff ei ffactora yn Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor yn y dyfodol. O ran amcangyfrif costau, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai’n dilyn y | |

| | | |
|---|---|---|
| | mater ac yn adrodd yn ôl yn unol â hynny i Arweinydd y Grŵp Llafur.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar y Datganiad Blynyddol Strategaeth Trysorlys, y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol a Datganiad Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021 a chytuno ar y Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 37** | **DATGANIAD POLISI TÂL 2020/21**<br><br>Datganodd y swyddogion dilynol fuddiant yn yr eitem hon ond aros yn y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei hystyried:<br><br>- Michelle Morris – Rheolwr Gyfarwyddwr<br>- Richard Crook – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol<br>- Damien McCann – Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol<br>- Lynn Phillips – Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg (Interim)<br>- Rhian Hayden – Prif Swyddog Adnoddau<br>- Anne-Louise Clark – Prif Swyddog Masnachol<br>- Andrea Jones – Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol<br>- Andrea Prosser – Pennaeth Datblygu Sefydliadol<br>- Bernadette Elias – Pennaeth Polisi a Pherfformiad<br>- Gemma Wasley – Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd<br>- Sean Scannell – Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata a Mynediad Cwsmeriaid<br>- Ceri Edwards-Brown – Swyddog Democrataidd<br>- Deborah Jones – Swyddog Cymorth Democrataidd<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor mai hwn oedd yr adroddiad traddodiadol sy'n nodi'r polisïau yn ymwneud â thâl ac wedyn cynigiodd gymeradwyo Opsiwn 1.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef y Datganiad Polisi Tâl 202021. | |
| **No. 38** | **ABSENOLDEB STATUDOL PROFEDIGAETH RHIANT** | |

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i gael ei ystyried.

PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo gweithredu Opsiwn 1 yn weithredol o 6 Ebrill 2020 ar y sail y byddai'n cyflawni:

- y gofynion deddfwriaethol tra'n rhoi'r Cyngor o flaen yr isafswm gofyniad statudol;
- cael ei annog gan y Llywodraeth;
- yn gyson gyda'r hyn a gynigir mewn darpariaethau eraill;
- yn golygu cost ychwanegol fach iawn;
- ac y byddai'r Cyngor yn cael ei weld fel cyflogwr modern o ddewis sy'n gysylltiedig gyda'r cynigion ar gyfer y Strategaeth Gweithlu newydd.

| Opsiwn 1 | Ystyriaethau | • Buddion |
|---|---|---|
| Newid hawl 2 wythnos o wyliau ar gyflog llawn, beth bynnag am oedran neu hyd gwasanaeth, neu rai sydd wedi dioddef genedigaeth farw ar ôl 24 wythnos o feichiogrwydd.<br><br>Ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys perthnasau yng nghyfraith a llys-berthnasau i sicrhau cysondeb gyda darpariaethau eraill cyfnod absenoldeb (y gwyddom na fyddai'n medru | • Byddai'n golygu cost ychwanegol i'r Awdurdod (isel ond mae'r union swm yn anhysbys)<br>• Yn uwch na'r hyn sydd ei angen gan y Ddeddf<br>• Byddai angen i staff rheng-flaen gael llanw ar gyfer yr absenoldeb ychwanegol. | • Cysylltiadau i Strategae Gweithlu<br>o fod yn gyflogwr modern o ddew sy'n hyrwyddo llesiant e gweithwyr cyflogedig.<br>• Byddid yn disgwyl i'r gost ychwanegol fod yn fach iawn o gofio am pa mor aml y byddid yn defnyddio'r ddarpariaeth ac y gellid adhawlio'r taliad statudol a y ddwy wythnos.<br>• Darpariaeth gyson ar gyfer pol gweithiwr cyflogedig a fyddai'n golygu tegwch yn yr hawliadau Ar gyfer yr holl staff. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | adhawlio yng nghyswllt y SPBB). | | | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 39 | **RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2020-21**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor er mwyn cydymffurfio gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ei bod yn ofynnol i'r Cyngor baratoi rhestr o daliadau yn flynyddol y mae'n bwriadu eu gwneud i'w Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig. Cynigiodd y dylid cymeradwyo Opsiwn 1.<br><br>Cyfeiriodd Arweinydd y Grŵp Llafur at y rhestr o Hawliadau Cyflogau Uwch a amlinellir ar dudalen 546 yr adroddiad a dywedodd fod dau lwfans cyfrifoldeb hefyd yn cael eu talu i'r cynrychiolwyr a benodwyd i Fwrdd Silent Valley a gofynnodd os y dylai'r taliadau hynny hefyd gael eu cynnwys ar y rhestr.<br><br>Esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y rhestr yn cyfeirio at lwfansau cyflogau uwch sy'n ffurfio rhan o'r Panel Annibynnol ac nid yw eu penderfyniadau (sydd â chap o 17) ac eglurodd nad yw'r penodiadau i Fwrdd Silent Valley yn ffurfio rhan o'r gofynion hynny. Fodd bynnag, caiff y taliadau hyn eu dangos yn y rhestr flynyddol o Ddatganiad Taliadau a wnaed i Aelodau.<br><br>Ar yr un pwynt, dywedodd Aelod arall fod y Cyngor wedi cytuno'n flaenorol y byddai'r ddau daliad hyn yn cael eu cynnwys mewn rhestri yn y dyfodol er budd agoredrwydd a thryloywder.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor nad oedd ganddo broblem wrth weithredu'r awgrym er fod yr wybodaeth wedi ei chynnwys o fewn y Datganiad Taliadau i Aelodau blynyddol sydd yn ddogfen gyhoeddus. Fodd bynnag, os teimlid bod angen dyblygu'r wybodaeth hon a chyhyd ag ei fod o fewn cylch yr hyn y gellid ei wneud o safbwynt adnoddau, roedd yn sicr na fyddai'n broblem.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y Cyngor yn cael ad-daliad gan Silent Valley am ffioedd y cyfarwyddwyr. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef cytuno a chyhoeddi'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2020/21. | |
| **No. 40** | **<u>DATGANIAD TALIADAU A WNAED I AELODAU YN 2019/2020</u>**<br><br>Ystyriodd y Cyngor adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor er mwyn cydymffurfio gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ei bod yn ofynnol i'r Cyngor baratoi rhestr o daliadau yn flynyddol y mae'n bwriadu eu gwneud i'w Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig. Cynigiodd y dylid cymeradwyo Opsiwn 1.<br><br>Mewn ymateb i sylw a wnaed yr ymddangosai y talwyd ddwywaith i unigolyn, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau na chredai nad oedd hwn yn daliad a wnaed ddwywaith a bod y taliadau blynyddol a dderbyniwyd yn cyfeirio at ddau sefydliad gwahanol ac nad oedd unrhyw Aelod wedi derbyn mwy nag un SRA ar unrhyw amser penodol. Fodd bynnag, dywedodd y swyddog y byddai'n weithredu ar y mater ac yn adrodd yn ôl yn union â hynny.<br><br>Cododd Aelod bryder yr ymddangosai yn y golofn 'Swm a Dalwyd' lle disgwylir data a dywedodd fod hyn wedi digwydd yn y flwyddyn flaenorol. Gofynnodd am sicrwydd y byddid yn derbyn yr wybodaeth cyn gynted ag sy'n bosibl.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y disgwylir yr wybodaeth hyn gan gyrff allanol ond pan dderbynnir yr wybodaeth derfynol y caiff y Rhestr Taliadau a hefyd y Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol ei diweddaru i adlewyrchu hyn. Rhagwelir y derbynnir yr wybodaeth hon cyn cyhoeddi'r Datganiad Taliadau yn ffurfiol ar y wefan a chaiff ei gylchredeg i Aelodau unwaith y'i derbyniwyd.<br><br>Dywedodd Aelod arall fod Heddlu Gwent a'r Panel Troseddu wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon ar y wefan a dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai'n gweithredu ar hyn.<br><br>Mynegodd Aelod bryder fod gwahaniaeth yn y symiau a hawlir am lwfansau teithio. Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai hyn yn dibynnu ar yr hawliadau unigol gan Aelodau unigol ac roedd yn dibynnu ar y nifer y teithiau y mae'n rhaid i unigolion ei | |

wneud wrth gynnal eu dyletswyddau fel Cynghorydd.

PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1 sef cyhoeddi'r Datganiad Taliadau a Wnaed i Aelodau yn ystod 2019/20, yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

**No. 41** **OPSIYNAU CYLLIDO – HEOL ABERBÎG**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, yn absenoldeb yr Aelod Gweithredol – Amgylchedd, fod yr adroddiad hwn yn bennaf ar gyfer gwybodaeth oherwydd y bu'n fater o reidrwydd fod angen i'r gwaith ddechrau ar Heol Aberbîg fel mater o frys, ac am resymau amlwg felly roedd y Pwyllgor Gweithredol wedi cymryd y penderfyniad hwn ar ran y Cyngor. Tynnwyd sylw at y ffaith y rhoddir manylion y fethodoleg cyllid yn yr adroddiad ac y cafodd Opsiwn 2 ei gymeradwyo.

Gofynnodd Aelod am sicrwydd am lefel yr effaith y byddai cau Heol Aberbîg yn ei gau ar safle profi Covid-19 yn Cwm a gofynnwyd os y byddai wedi bod yn gallach i gyflwyno'r cau mewn camau mewn trafodaeth gyda Costain gyda chau heol Blaenau'r Cymoedd ym Mrynmawr.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yr hysbyswyd yr ymgynghorwyr adeg y chwilio am safle profi am y bwriad i gau'r ffordd ond roeddent yn dal i deimlo ar gyfer hygyrchedd ar gyfer mwyafrif y Fwrdeistref Sirol ac yn ehangach na'r Fwrdeistref Sirol bod y safle yn dderbyniol ac felly fe wnaethant symud ymlaen gan wybod yn llawn am y bwriad i gau'r ffordd Yn nhermau sicrwydd, roedd pobl yn mynd i'r safle ac yn archebu profion ac mae'n llawn weithredol ar y cam hwn.

Yn nhermau Blaenau'r Cymoedd, ceisir lleihau effaith hyn ond nid oedd y Cyngor wedi derbyn cadarnhad tan yn hwyr yn y dydd am pryd y byddid yn cau ffyrdd ar Ffordd Blaenau'r Gwybodaeth. Cyn gynted ag y derbyniwyd yr wybodaeth hon, gofynnwyd i'r Pwyllgor Gweithredol gymeradwyo'r gwaith i Heol Aberbîg er mwyn lleihau'r effaith. Nodwyd pe na byddai'r gwaith i Heol Aberbîg wedi ei wneud tan ar ôl y gwaith ar heol Blaenau'r Cymoedd, byddai fod risg o ddifrod helaeth i'r adran honno o'r ffordd a gallai fod wedi

| | | |
|---|---|---|
| | bod rhaid ei chau. Byddai'r ffordd yn ail-agor unwaith y cwblhawyd y gwaith a byddai'n dod yn rhan o'r llwybr gwyro ar gyfer heol Blaenau'r Cymoedd.<br><br>Daeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol i ben drwy ddweud fod y Cyngor wedi parhau i weithio gyda thîm Blaenau'r Cymoedd ac y byddai'n parhau i geisio lleihau effaith hyn a gwneud ei orau i osgoi hyn. Fodd bynnag, gall fod yn bosibl y bydd gorgyffwrdd o ychydig o wythnosau rhwng y ddau ddarn o waith.<br><br>Cyfeiriodd Aelod arall at Opsiwn 2 a dywedodd fod preswylwyr yn bryderus am y prosiect Bwa Mawr yn y dyfodol ac yn ceisio sicrwydd cyn gynted ag y ceir caniatâd ac ymrwymiad gan Cadw y byddai gwaith yn dechrau ar y Bwa Mawr o fewn cyfnod byr ac y byddai'r cyllid yn cael ei ailosod yn gyflym.<br><br>Rhoddodd Arweinydd y Cyngor sicrwydd cadarn y byddai hyn yn digwydd. Ymgynghorwyd ar hyn gyda'r Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd y mae ei bortffolio yn cynnwys y Bwa Mawr ynghyd â swyddogion. Er na fyddai'r gwaith ar y Bwa Mawr yn dechrau tan 2021 ac er y cyflwynwyd ceisiadau am gymorth cyllid i Cadw, os na fyddai hyn ar gael adeg yr oedd angen gwneud y gwaith, caiff arian o'r rhaglen cyfalaf ei ddynodi a'i ddargyfeirio i'r gwaith a'r camau unioni angenrheidiol fyddai angen eu gwneud.<br><br>Er y sefydlwyd cronfa cyfalaf wrth gefn, yn lle cael ei ddefnyddio ar unwaith, gall y Cyngor fod mewn sefyllfa yn y 12 mis nesaf i arian cyfalaf ychwanegol gael ei dderbyn gan yr awdurdod a byddai hyn yn gwneud y rhaglen gyfalaf ymddangos yn iachach. Daeth yr Arweinydd i ben drwy roi gwarant y caiff y gwaith i'r Bwa Mawr ei wneud.<br><br>Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd/Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd y bu'r Bwa Mawr yn un o'r blaenoriaethau am gyfnod sylweddol ac er y gwnaed atgyweiriadau i'r strwythur, mae'n parhau'n flaenoriaeth a chaiff y gwaith ei gwblhau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a nodi'r penderfyniad a gymerwyd gan y Pwyllgor Gweithredol, sef:<br><br>Bod y Pwyllgor Gweithredol wedi cytuno i Opsiwn 1, i ddefnyddio dyraniad Rhaglen Cyfalaf CBSBG Bwa Mawr (£1,000K) – yr | |

| | | |
|---|---|---|
| | opsiwn hwn yw'r un a ffafrir ar y sail y cafodd cais i Cadw am ganiatâd i wneud gwaith unioni ei ohirio ac na fedrid symud ymlaen â'r gwaith nes y cafwyd caniatâd gan arwain at ohirio gwaith gwirioneddol ar y safle tan fis Gorffennaf 2021/22 fan gyntaf. Ar y cam hwn byddai'r cyllid yn cael ei adolygu/ailosod cyn cymeradwyaeth Cadw a gwaith ar y safle. Os yw Llywodraeth Cymru yn cytuno wedyn ar gyllid llifogydd ar gyfer y cynllun, yna gallai'r £405K gael ei 'ad-dalu' i'r dyraniad cyfalaf. | |
| **No. 42** | **<u>CYLCH BLYNYDDOL CYFARFODYDD 2020/201</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Perfformiad a Democrataidd.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr adroddiad hwn yn dangos ymrwymiad o fis Medi ymlaen y byddai'r broses ddemocrataidd yn dychwelyd i rywfaint o normalrwydd. Byddai'r Pwyllgorau Craffu yn cwrdd yr wythnos ddilynol i drafod blaenraglenni gwaith fel y byddai pob Pwyllgor yn barod am eu cyfarfodydd cyntaf ym mis Medi.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>(i) Cymeradwyo cylch blynyddol arfaethedig cyfarfodydd 2020/21.<br><br>(ii) Cymeradwyo'r broses penderfynu ddilynol i drin unrhyw fater brys yn ystod gwyliau mis Awst<br><br>a. bod yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd mewn cysylltiad gydag Aelodau Gweithredol a Swyddogion perthnasol yn delio gydag unrhyw eitemau brys rhwng 1 – 31 Awst 2020 (h.y. gelwir Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Gweithredol ar fyr rybudd i gydnabod fod y mater yn un brys ac y byddai'r weithdrefn galw-mewn yn weithredol). Byddai'r Rheolwr Gyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig ynghyd â'r Arweinyddiaeth yn penderfynu os oedd y mater yn un brys; a<br><br>b. dylid cyfyngu penderfyniadau i faterion brys a'u cofnodi ar restr penderfyniadau a gyflwynir i gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor. Ni ddylai unrhyw faterion dadleuol neu sensitif gael eu trin yn ystod y cyfnod hwn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 43** | **<u>PWYLLGOR SAFONAU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2020.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i derbyn yr adroddiad a'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 44** | **<u>PENODIAD I'R PWYLLGOR SAFONAU</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol (Swyddog Monitro).<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn, sef:<br><br>- cymeradwyo penodiad Mr. Francis Roy Lynch; ac<br><br>- ailhysbysebu yr ail apwyntiad gwag na chafodd ei lenwi. | |
| **No. 45** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i:<br><br>**<u>Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan</u>**<br>- penodi cynrychiolydd newydd.<br><br>Gofynnodd yr Arweinydd am ddatganiadau diddordeb os oes gan unrhyw Aelod ddiddordeb mewn llenwi'r swydd wag hon.<br><br>**<u>Panel Ymgynghorol ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yr Awdurdod Lleol</u>**<br><br>Gwnaeth y Panel yr argymhellion dilynol ar 25 Chwefror 2020 i benodi:<br><br>- Debra Fields – ***Ysgol Gynradd Sofrydd***<br>- Pat Smail – ***Ysgol Gynradd Sofrydd***<br><br>Gwnaed yr argymhellion dilynol gan y Panel ar 10 Gorffennaf 2020 i benodi: | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Claire Gardner – ***Ysgol Eglwys yng Nghymru Santes Fair***<br>- Richard Bevan a Daryl Tovey – ***Cymuned Ddysgu Abertyleri***<br>- Joanne Davies – ***Ysgol Gynradd Glanhywi***<br>- Cynghorydd John C Morgan – ***Ysgol Gynradd Georgetown***<br>- Cynghorydd John C Morgan – ***Ysgol Gyfun Tredegar***<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD i gymeradwyo'r penodiadau uchod. | |
| **No. 46** | **AMSER CYFARFODYDD Y CYNGOR YN Y DYFODOL**<br><br>PENDERFYNWYD bod cyfarfodydd y Cyngor yn dechrau am 10.00am yn y dyfodol. | |
| **No. 47** | **EITEM(AU) EITHRIEDIG**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiadau dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitemau eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rhesymau am y penderfyniadau am yr eithriad ar gael mewn rhestr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 48** | **ADOLYGIAD GWASANAETH**<br><br>Gadawodd y Cynghorydd D. Wilkshire y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Datganodd y Cynghorwyr N. Daniels, W. Hodgins, L. Parsons, P. Edwards, J. Millard a H. Trollope fuddiant yn yr eitem hon ond ar gyngor y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol fe wnaethant aros yn y cyfarfod tra roedd yn cael ei hystyried.<br><br>Ar ôl rhoi ystyriaeth i farn y Swyddog Priodol am y prawf cyhoeddus o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei chynnal gan ei bod yn debyg y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Masnachol yn fanwl am yr adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad a gynhaliwyd ar ddarpariaeth Hamdden a Diwylliant a thynnodd sylw at y pwyntiau perthnasol iddo. Atododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg (Interim) yr wybodaeth hon drwy ddarparu manylion y Bwrdd Partneriaeth Strategol newydd a threfniadau llywodraethiant a strwythur wedi eu cryfhau.<br><br>Nodwyd bod y Cyngor a'r sefydliad wedi cydweithio drwy gydol y broses adolygu ac wedi datblygu cynllun busnes cadarn a gafodd ei wirio am ddiwydrwydd dyladwy gan gydweithwyr ariannol. Daeth y Prif Swyddog Masnachol i ben drwy amlinellu'r opsiynau ar gyfer eu hystyried o fewn yr adroddiad.<br><br>Wedyn gofynnwyd am farn Aelodau pan ddywedodd Aelodau, yn amodol ar gryfhau'r trefniadau llywodraethiant, y cefnogid yr opsiwn a ffafrir a fanylion yn yr adroddiad.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a chymeradwyo Opsiwn 2, sef dilyn Llwybr B h.y.<br><br>Cyfnod ymestyn contract gyda therfyn amser o bum mlynedd gyda phwynt torri/adolygu ar flwyddyn 3. Defnyddio'r strwythur llywodraethiant newydd arfaethedig i adolygu'n ffurfiol berfformiad cyflenwi'r cynllun busnes gan y sefydliad ar y fanyleb a threfniant ariannol a rheoli diwygiedig. Defnyddio mannau gwirio clir i ddynodi risgiau a gweithredu i'w lliniaru yn amserol. Pe byddai'r sefydliad yn cyflawni eu cynllun busnes i gyd byddai'r Cyngor yn ystyried ehangiad pellach i'r contract yn amodol ar adolygiad pellach.<br><br>Canmolodd Arweinydd y Grŵp Llafur waith y swyddogion ac Aelodau'r Gweithgor yng nghyswllt yr adolygiad gwasanaeth.<br><br>Oherwydd natur eu datganiad buddiant ni wnaeth y Cynghorwyr W. Hodgins ac L. Parsons gymryd rhan yn y bleidlais yng nghyswllt yr eitem hon. | |
| **No. 49** | **PARC YR ŴYL** | |

Ar ôl rhoi ystyriaeth i farn y Swyddog Priodol am y prawf cyhoeddus o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.

PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei chynnal gan ei bod yn debyg y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

Gwnaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr y datganiad dilynol cyn ystyried yr adroddiad.

Byddai'r Cyngor yn gwybod am erthygl yn y South Wales Argus ddydd Gwener diwethaf am yr adroddiad hwn a'i argymhellion. Roedd hwn yn adroddiad eithriedig a chyfrinachol a roedd yn ymddangos o'r erthygl fod y newyddiadurwr wedi cael copi o'r adroddiad.

Roedd cyhoeddi cynnwys yr adroddiad yn awr wedi cyflwyno rhai risgiau ychwanegol sylweddol i'r Cyngor – nid yn lleiaf y gallu i negodi sefyllfa fasnachol dda a'r niwed i enw da'r Cyngor gyda'n partner, ac yn fwyaf arbennig Lywodraeth Cymru.

Fel Rheolwr Gyfarwyddwr roedd wedi ysgrifennu at Olygydd y South Wales Argus am y mater. Fe wnaeth hefyd atgoffa'r Cyngor fod Codau Ymddygiad Swyddogion ac Aelodau Etholedig ill dau yn gosod dyletswydd o gyfrinachedd ar bawb a bod datgelu'r adroddiad hwn yn doriad difrifol ar y ddyletswydd honno.

Wrth wneud y datganiad hwn heddiw, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei bod yn pwysleisio ar y Cyngor effaith y weithred o rannu'r adroddiad gyda newyddiadurwr ac i atgoffa'n gadarn bod yn rhaid i adroddiadau eithriedig barhau'n gyfrinachol.

Cefnogodd Arweinydd y Cyngor ddatganiad y Rheolwr Gyfarwyddwr a dywedodd ei fod yn gwybod drosto'i hun drwy drafodaethau am lefel y siom a'r pryder a fu am y mater hwn. Nid oedd gan unrhyw unigolyn a allai wneud rhywbeth fel hyn gyda goblygiadau posibl masnachol ac i enw da fawr neu ddim parch at y Cyngor. Teimlai'n bersonol fod hyn yn dor-cyfrinach yn rhy bell ac y dylai bod rhyw fath o ymchwiliad i hyn mewn ymgais i ganfod o lle y daeth y toriad hwn .

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor gyda sylwadau'r Arweinydd a dywedodd y dylai pob Aelod a swyddog perthnasol sicrhau bod y dyfeisiau trydanol perthnasol ar gael fel rhan o'r broses ymchwilio. Mynegodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei bryder fod gan rai Aelodau wybodaeth gyfrinachol allanol ar eu dyfeisiau ac na fyddai'r sefydliad neilltuol dan sylw yn caniatáu cyrchu hyn fel rhan o'r rheoliadau GDPR.<br><br>Dywedodd Aelod arall y bu'r wybodaeth hon yn y parth cyhoeddus am hir cyn bod yr adroddiad wedi dod ar gael i Aelodau a swyddogion yr wythnos flaenorol. Yr oedd yr Aelod Seneddol hefyd yn gwybod am gynnwys yr adroddiad.<br><br>Dilynodd trafodaeth faith pan fynegwyd gwahanol sylwadau gydag un Aelod yn dweud ei fod yn cytuno fod angen i ymchwiliad ar hyn fynd mor bell yn ôl â mis Rhagfyr 2019 pan ddaeth pobl i wybod gyntaf am y sefyllfa.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol (Swyddog Monitro) fod datgelu adroddiad cyfrinachol i'r wasg yn torri Cod Ymddygiad Aelodau a hefyd God Ymddygiad Swyddogion a'i fod yn fater difrifol. Nododd y sylwadau a wnaed yng nghyswllt dyfeisiau trydanol tebyg i liniaduron a dywedodd mai dyfeisiau'r Cyngor oedd y rhain ac y byddai'n berffaith gywir ac mewn trefn i unrhyw ddyfeisiau o'r fath fod yn rhan o unrhyw ymchwiliad. Nodwyd y byddai cydymffurfiaeth a gofynion diogelu data yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw ymchwiliad.<br><br>Daeth y Cadeirydd i ben drwy ddweud y caiff unrhyw ymchwiliad ei adael ar ddisgresiwn y Rheolwr Gyfarwyddwr i'w gynnal.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn fanwl am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo. Gofynnwyd am gymeradwyaeth i ddechrau ar drafodaethau Penawdau Telerau ar gyfer prynu rhydd-ddaliad Siopa'r Ŵyl a safleoedd cysylltiedig ac i ystyried derbyn ildiad prydles gan y perchnogion presennol. Yn ychwanegol, i ddatblygu cynllun busnes yn amlinellu defnyddiau a chostau'r datblygiad arfaethedig i gael ei ystyried a'i gytuno.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd fod hwn yn gyfle enfawr o ran adfywio a byddai datblygu achos | |

busnes yn hanfodol i gyflawni hyn. Byddai cysylltiadau gyda phrosiectau eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol ac mae cyfle i ailddiffinio ac ystyried darpariaeth gwasanaethau rheng flaen ac os a sut y gellid eu darparu'n fwy agos at y preswylwyr o fewn hybiau canol trefi. Byddai gweithio partneriaeth hefyd yn allweddol i gyflawni'r weledigaeth ac i symud ymlaen â gwasanaethau.

Cynigiodd yr Aelod Gweithredol y dylid sefydlu gweithgor yn cynnwys Aelod Gweithredol, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adfywio a 2 Aelod o'r Grŵp Llafur i helpu datblygu'r achos busnes. Byddai ymgynghoriad gydag Aelodau eraill yn cynnwys Aelodau Ward yn digwydd ar y man priodol.

Wedyn gofynnwyd am farn Aelodau, a rhoddir crynodeb ohonynt islaw:

- Derbyniwyd cwynion gan breswylwyr am alwadau diwahoddiad gan y Cyngor yn gofyn am wybodaeth am arferion siopa. Gofynnodd yr Aelod pwy oedd wedi awdurdodi hyn a gofynnodd am wybod am y goblygiadau cost.

- Mae darlun ehangach sy'n rhaid ei ystyried yn cynnwys yr effaith ar yr economi lleol. Mae Blaenau Gwent yn derbyn nifer sylweddol o ymwelwyr sy'n gwario hyd at £55m y flwyddyn sy'n cyfrannu at yr economi lleol ac mae Parc yr Ŵyl yn un o'r prif resymau am ymweld â'r ardal. Byddai'r cynnig hwn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd bwyd, diodydd a gwestai a mynegwyd pryder na fyddai'r lefel yma o refeniw ar gael os na fyddai unrhyw ymwelwyr. Gofynnodd yr Aelod y dylid rhoi ystyriaeth fel rhan o unrhyw drafodaethau i'r posibilrwydd o gadw elfen manwerthu fel rhan o'r cynnig er mwyn cefnogi'r masnachwyr ar y safle a hefyd y busnesau o amgylch sy'n dibynnu ar y safle i ddod â thwristiaeth i mewn i Flaenau Gwent.

- Dylid ymchwilio pob llwybr yng nghyswllt y safle yn cynnwys y cyfyngiadau parcio ar y safle a chysylltiadau trafnidiaeth.

- Mynegwyd pryder mai ychydig o wybodaeth ariannol sydd yn yr adroddiad.

- Dywedodd Aelod mai ei brif bryder yw enw da'r Cyngor gan mai'r cynnig yw defnyddio rhan o'r safle ar gyfer gofod

swyddfa. Er bod yr adroddiad yn dweud nad oedd unrhyw ddiddordeb yn y safle, ni chawsant unrhyw wybodaeth yn dweud sut y ceisiodd y Cyngor farchnata'r safle. Dywedwyd hefyd fod y Noddfa Tylluanod yn agos iawn at y safle.

- Mynegwyd pryder y comisiynwyd ymgynghorwyr i gynnal y darn dechreuol o waith ond bod gan y Cyngor yr arbenigedd perthnasol yn fewnol i wneud y gwaith a allai fod wedi arbed arian.

Ymatebodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fel sy'n dilyn:

- Bydd yr achos busnes yn rhoi manylion pellach yng nghyswllt elfen ariannol y cynllun. Yn nhermau'r costau a amlinellir ym mharagraff 5.1.2, mae'n bosibl y gellid rhannu'r gost gyda Llywodraeth Cymru. Cafodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bwerau dirprwyedig i gomisiynu'r arbenigwyr a enwir yn yr adroddiad ac i ddatblygu ac ymchwilio'r cyfle posibl. Gwnaed hyn mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Gweithredol.

- Cydnabuwyd y berthynas rhwng twristiaeth a gwariant a byddai'r gwaith hwn yn cael ei gysylltu ac edrychir arno mewn cysylltiad â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd. Byddai'r achos busnes hefyd yn cynnwys manylion dyfodol asedau twristiaeth yn y safle.

- Caiff pob cyfle datblygu economaidd eu hymchwilio ac mae rheswm a dadl gref dros edrych ar yr adfywio fel cyfle gwirioneddol ac ni ddylai hyn fod yn gyfle a gollir. O ran enw da, byddai hyn yn cael ei gwestiynu pe byddai'r Cyngor wedi methu gweithredu.

- Cafodd cysylltiadau trafnidiaeth eu cynnwys yn yr adroddiad a chânt eu hymchwilio fel rhan o'r prif gynllun.

- Cynhaliwyd trafodaethau gydag asiantau'r perchennog presennol a gadarnhaodd cyn cysylltu gyda'r Cyngor mai dim ond un datganiad diddordeb a gafwyd ond nid oedd y sawl â diddordeb wedi methu cwblhau.

- Yn nhermau galw diwahoddiad ar breswylwyr, nid oedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gwybod am hyn ond

dywedodd y byddai'n ymchwilio ac yn hysbysu'r Aelod yn unol â hynny.

Gofynnodd Arweinydd y Grŵp Llafur am atebion ysgrifenedig.

Dywedodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd fod mwy o gwestiynau nag atebion yn y sefyllfa bresennol a rhagwelir y byddai datblygu achos busnes yn mynd i'r afael â llawer o'r materion hyn. Felly cynigiodd gymeradwyo Opsiwn 2 gyda'r cynnig ychwanegol i sefydlu gweithgor i gynorthwyo gyda datblygu'r achos busnes yn y dyfodol. Caiff y busnes achos hwn wedyn ei gyflwyno i'w ystyried yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi.

Mewn ymateb i gwestiwn am ymgyfraniad Aelodau Ward ar y gweithgor, dywedodd yr Aelod Gweithredol y byddai cyfleoedd i gyfethol Aelodau Ward ar y gweithgor wrth iddo fynd rhagddo.

PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a chymeradwyo Opsiwn 2, sef cymeradwyo'r dilynol:

- Symud ymlaen gydag Opsiwn Dau a dechrau trafodaethau manwl gyda pherchnogion presennol Parc Siopa'r Ŵyl gyda golwg at gytuno Penawdau Telerau ar gyfer caffael y safle ar gyfer ailwampio/ailddatblygu.

- Paratoi Achos Busnes ar gyfer caffael a defnydd y dyfodol, i'w ystyried gan y Cyngor ym mis Medi 2020.

- Dylai'r costau sy'n gysylltiedig gyda chomisiynu cyngor allanol arbenigol gael ei gyllido drwy Gronfa Trawsnewid y Cyngor.

- Symud ymlaen gyda thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am gyllido unrhyw gaffaeliad, ailwampio ac ailddatblygu'r safle.

PENDERFYNWYD YMHELLACH i

- Sefydlu gweithgor yn cynnwys yr Aelodau Gweithredol, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adfywio ynghyd â 2 Aelod o'r Grŵp Llafur i weithio ar yr achos busnes wrth

| | | |
|---|---|---|
| | ochr swyddogion.<br><br>- Cynnal ymchwiliad mewnol i'r amgylchiadau yn ymwneud â chynnwys adroddiad cyfrinachol yn y parth cyhoeddus. | |